

# SAFONAU

Awdurdod Annibynnol  
Safonau'r Diwydiannau  
Creadigol

Chwefror 2025



## CIISA

The Creative Industries  
Independent Standards Authority  
Independent. Without fear or favour.

# Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad i'r Safonau	6
Sut y dylai Gweithlu'r Diwydiannau Creadigol deimlo pan ddefnyddir ein Safonau yn ymarferol	9
Diffiniadau allweddol a ddefnyddir yn y Safonau	10
Cipolwg o'r Safonau	13
Y Safonau Llawn	16
Atodiadau:	
I: Enghreifftiau o ymddygiad niweidiol sy'n berthnasol i'r Safonau	29
II: Rhestr enghreifftiol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Safonau	34
III: Pwyllgor Cynghori'r Safonau	37

# Rhagair

## Gan y Farwnes Helena Kennedy, Cadeirydd Bwrdd yr Awdurdod

Rydym yn hynod falch o gyflwyno ein Safonau, fframwaith sy'n nodi'r safonau ymddygiad gofynnol a ddisgwylir ar draws y diwydiannau creadigol er mwyn sicrhau amgylcheddau gwaith diogel a chynhwysol. Mae'r Safonau wedi'u crefftio â gofal ac ystyriaeth wych trwy gydweithio manwl a helaeth â chyrrff allweddol yn y sectorau ffilm, teledu, theatr a cherddoriaeth, gan gynnwys ein Pwyllgor Cynghori ar Safonau hynod gefnogol.

Er gwaethaf llawer o waith yn y maes hwn, gwyddom fod bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol ac ymddygiad o natur wahaniaethol, yn parhau i fod yn gyffredin yn y diwydiannau creadigol. Mae anghydbwysedd pŵer, arferion ac amgylcheddau gwaith anffurfiol, ac ansicrwydd swyddi oll yn ffactorau sy'n cyfrannu. Mae'r effaith benodol ar aelodau llawrydd a hunangyflogedig o weithlu'r diwydiannau creadigol yn arbennig o ddifrifol felly mae'r angen am Awdurdod Annibynnol Safonau'r Diwydiannau Creadigol yn cael ei deimlo'n ddwfn iawn.

Felly mae'r Safonau hyn yn foment nodedig, i ddarparu cysondeb a chydlynid i'r hyn a all fod yn amgylchedd heriol i'w lywio o ran yr hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad niweidiol yn y diwydiannau creadigol a sut y gellir atal, a delio â hyn.

Gobeithiwn y bydd y Safonau yn bwynt cyfeirio pwysig i gynifer sy'n cael eu hunain yn adrodd neu'n derbyn pryderon heb unrhyw feincnod cyson i gyfeirio ato. Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd canllawiau ymarferol, wedi'u teilwra gydag enghreifftiau eglur, sef y cam nesaf ar gyfer y Safonau, yn cefnogi gweithrediad y Safonau mewn ffordd ymarferol iawn.

Rwy'n estyn fy niolchgarwch personol i Niyi Akeju, Pennaeth Datblygu Safonau am ei harweinyddiaeth wrth ddwyn y gwaith pwysig hwn i ffrwyth y credwn y bydd yn dod â manteision mawr i'r diwydiannau creadigol wrth geisio cael gwell diwylliant gweithle tecach.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n Pwyllgor Cynghori ar Safonau a'r llu o sefydliadau ac unigolion eraill a gymerodd ran mor frwdfrydig wrth greu'r Safonau hyn, a phawb a gyfrannodd at ein hymgyngoriad. Mae hwn yn ymdrech gydweithredol tu hwnt; mae'r Awdurdod ['Creative Industries Independent Standards Authority' neu CIISA] wedi ac yn parhau i weithio gydag undebau llafur a chyrrff diwydiant er enghraifft, i gytuno ar safonau ymddygiad gofynnol, ac mae'r Safonau hyn yn parhau i fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu yn y blynyddoedd i ddod i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Mae ein gwaith yn parhau gyda dilyniant a datblygiad gwasanaethau eraill CIISA ochr-yn-ochr â'n gwaith i ymgorffori'r Safonau hyn ar draws ecosystem gyfan y diwydiannau creadigol, gan ddechrau gyda ffilm, teledu, theatr a cherddoriaeth. Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau arloesol i'n helpu gyda'r gwaith ymarferol o gymhwyso'r Safonau.

Trwy osod Safonau cyson a thrwy eu hymgorffori a'u cymdeithasu, mae CIISA yn rhoi cam cadarnhaol ymlaen wrth ategu amgylcheddau gwaith iach ar gyfer diwydiannau creadigol y Deyrnas Gyfunol, gan eu cefnogi i dyfu a ffynnu.



# Crynodeb gweithredol

Sefydlwyd Awdurdod Annibynnol Safonau'r Diwydiannau Creadigol (CIISA) i gynnal a gwella safonau ymddygiad yn y diwydiannau creadigol, ac i atal a mynd i'r afael â phob math o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ymddygiad gwahaniaethol.

Datblygwyd Safonau CIISA mewn cydweithrediad ag unigolion a sefydliadau o'r diwydiannau creadigol. Gan ddarparu fframwaith ar gyfer un weledigaeth unedig o safonau ymddygiad proffesiynol yn y diwydiannau creadigol, maent yn amlinellu sut beth yw gwaith ac amgylchedd diogel a chynhwysol sy'n trin pobl ag urddas. Mae'r safonau yn raddadwy i unrhyw faint o sefydliad, cynhyrchiad neu brosiect.

Mae'r cyflwyniad yn nodi sut y bydd unigolion, sefydliadau, cynyrchiadau a phrosiectau, a CIISA yn defnyddio'r Safonau.

Ceir pedair Safon; sy'n cael eu cyflwyno gyda'r testun canlynol:

## 1. Amgylcheddau Gweithio Diogel:

Mae bod yn destun ymddygiad megis aflonyddu (rhywiol neu arall), bwlio, gwahaniaethu, erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad ac arferion gwaith niweidiol yn cael effaith negyddol ar les unigolion, a gall effeithio ar eu perfformiad a'u cynnydd yn y dyfodol, yn ogystal â'u diogelwch corfforol.

Er y gallai rhywfaint o waith gynnwys sefyllfaoedd o dan bwysau mawr, mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol allu gwneud hynny mewn amgylchedd proffesiynol, yn rhydd o ddod i gysylltiad â niwed seicolegol, rhywiol a chorfforol.

Mae gan gyflogwyr, gweithwyr a phobl hunangyflogedig ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth berthnasol i beidio â datgelu eraill yn y gweithlu i risgiau i'w hiechyd neu ddiogelwch corfforol a meddyliol.

## 2. Amgylcheddau Gweithio Cynhwysol:

Mae gan bawb sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol yr hawl i gael eu trin yn deg a heb ragfarn ar bob cam o'u gyrfa. Gall ymddygiad gwahaniaethol effeithio ar allu unigolion i sicrhau gwaith, ffynnu a symud ymlaen yn eu rôl.

Felly, mae'n rhaid rhoi camau gweithredol ar waith i atal gwahaniaethu ac eithrio, gan sicrhau bod rolau a'r amgylchedd gwaith yn wirioneddol hygrych i bawb.

## 3. Mecanweithiau Adrodd Cyfrifol ac Atebol:

Dylai pawb sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol deimlo'n hyderus y bydd unrhyw bryderon y maent yn eu codi yn cael eu cymryd o ddifrif, yn cael eu hystyried yn deg ac yn llawn empathi, a'u datrys cyn gynted â phosibl, p'un a yw'r berthynas waith yn parhau neu wedi dod i ben.

Pryd bynnag y bo modd, dylent wybod sut i godi pryder gyda'r endid a'u contractiodd yn y lle cyntaf; a gallu gwneud hyn yn hawdd a heb ofni cael eu herlid, tawelu neu brofi canlyniadau andwyol i'w gyrfa. Dylid parchu awydd am anhysbysrwydd gan y person sy'n codi'r pryder.



**4. Diwylliant Dysgu Ymatebol:**

Mae diwylliant dysgu ymatebol yn galluogi Gweithlu'r Diwydiannau Creadigol i weld pryderon sy'n cael eu codi fel cyfle nid yn unig i fynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol, ond hefyd i ddysgu a gweithredu arno, er mwyn gwella diwylliant yn barhaus ynghylch ymddygiad o'r fath a'r ffordd y delir â phryderon.

Mae'r atodiadau'n darparu enghreifftiau o ymddygiad niweidiol sy'n berthnasol i Safonau CIISA ac yn rhestru deddfwriaeth berthnasol, yn ogystal ag aelodau'r Pwyllgor Cynghori ar Safonau a arweiniodd ar ddatblygu'r Safonau.



# Cyflwyniad i Safonau CIISA

## Beth yw'r safonau?

Mae Safonau CIISA ('y Safonau') yn nodi'r safonau ymddygiad gofynnol a ddisgwylir ar draws diwydiannau creadigol y Deyrnas Gyfunol i alluogi amgylcheddau gwaith diogel a chynhwysol, lle gall unigolion a'u hymdrechion creadigol ffynnu. Mae hyn yn cynnwys atal, a mynd i'r afael â phob math o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ymddygiad gwahaniaethol.

Mae'r Safonau yn darparu fframwaith ar gyfer un weledigaeth unedig o safonau ymddygiad proffesiynol o fewn y diwydiannau creadigol. Eu nod yw dangos sut beth yw amgylchedd gwaith diogel a chynhwysol sy'n trin pobl ag urddas, ac sy'n raddadwy i unrhyw faint o sefydliad, cynhyrchiad neu brosiect.

## Sut cafodd Safonau CIISA eu datblygu?

Datblygwyd Safonau CIISA mewn cydweithrediad ag unigolion a sefydliadau o'r diwydiannau creadigol.

Arweiniodd ymgynghoriad wyth wythnos rhwng 2il Rhagfyr 2024 a 27ain Ionawr 2025 at ymgysylltu gyda mwy na 700 o unigolion a sefydliadau, gyda bron i 200 o ymatebion ystyrlon i'r Safonau drafft.

Arweinwyd y datblygiad gan Bwyllgor Cynghori Safonau CIISA (gweler Atodiad III), a gyfarfu rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2024 i wyntyllu a siapio'r Safonau drafft, ac yna cyfarfu eto ym mis Chwefror 2025 i adolygu a diwygio'r Safonau yn seiliedig ar adborth o'r ymgynghoriad. Nid yw'r Pwyllgor Cynghori Safonau yn dylanwadu sut mae CIISA yn gweithredu. Mae'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n gweithio yn ffilm, teledu, cerddoriaeth a theatr gyda phrofiad cymwys:

- datblygu safonau a/neu ganllawiau ar ran gweithwyr (yn enwedig gweithwyr llawrydd);
- cefnogi gweithwyr (yn enwedig gweithwyr llawrydd) gyda nodweddion gwarchoddedig ar wahaniaethu yn y gweithle; a
- datblygu a chyflawni safonau ymddygiadol wrth weithio gyda chyflogwr/huriwr mewn swyddogaeth Adnoddau Dynol.

Yn ogystal â chyfarfodydd gyda sefydliadau a grwpiau diddordeb arbennig rhwng Mai a Thachwedd 2024, cynhaliodd Awdurdod Annibynnol Safonau'r Diwydiannau Creadigol gyfres o weithdai ym mis Hydref 2024 gyda sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr llawrydd ym maes ffilm a theledu, cerddoriaeth a theatr yn y drefn honno, i wirio perthnasedd y Safonau cyn lansio ymgynghoriad ehangach i'r diwydiant.

Datblygwyd y Safonau gan gyfeirio at y gofynion cyfreithiol presennol ar gyfer unigolion a sefydliadau (gweler Atodiad II: Rhestr enghreifftiol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Safonau CIISA). Nid yw'r manylion a roddir yma wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysfawr ac ni ddylid eu hystyried fel cyngor cyfreithiol.



## Sut gall unigolion ddefnyddio safonau CIISA?

Gall unigolion ddefnyddio'r safonau er mwyn:

- Deall pa fathau o ymddygiad all fod yn niweidiol (gweler Atodiad I: Enghreifftiau o ymddygiad niweidiol sy'n berthnasol i Safonau CIISA).
- Deall y safonau gofynnol o ymddygiad derbyniol, y tu hwnt i unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol, i unrhyw un sy'n ymwneud â gwaith yn y diwydiannau creadigol.
- Gwybod beth ddylent ei ddisgwyl ganddynt hwy eu hunain a'i gilydd, o ran atal a mynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol, gan gynnwys bod yn llygad-dyst i ymddygiad o'r fath.
- Gwiriwch sut mae eu profiad eu hunain yn ymwneud â Safonau CIISA cyn codi pryder, yn y lle cyntaf yn fewnol yn eu sefydliad, eu cynhyrchiad neu eu prosiect lle bo hynny'n bosibl, gan ddefnyddio gweithdrefnau presennol.
- Lle bo'n briodol, mynd i Awdurdod Annibynnol Safonau'r Diwydiannau Creadigol (unwaith y bydd ei wasanaethau ar gael) fel man diogel annibynnol lle gallant adrodd am brofiadau o ymddygiad niweidiol heb ofni sgil-effeithiau, gan wybod y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif a byddant yn derbyn cymorth a chefnogaeth ar gyfer y camau nesaf.

## Sut gall sefydliadau, cynyrchiadau neu brosiectau ddefnyddio Safonau CIISA?

Gall sefydliadau, cynyrchiadau a phrosiectau asesu eu polisiau a'u gweithdrefnau presennol yn erbyn, neu greu rhai newydd sy'n cyd-fynd â Safonau CIISA i sicrhau eu bod yn ymgorffori'r ymddygiadau cywir fel rhan o, neu ochr-yn-ochr â pholisiau a gweithdrefnau presennol, a bod eu gweithlu'n gwybod beth a ddisgwylir ganddynt. Drwy fodloni'r Safonau yn gyson, bydd sefydliadau, cynyrchiadau a phrosiectau yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r ymddygiadau a'r diwylliant sy'n galluogi'r bobl sy'n gweithio iddynt ffynnu.

## Sut fydd CIISA yn defnyddio'r safonau?

Bydd CIISA yn monitro sut mae'r diwydiannau creadigol yn ei wneud o ran bodloni'r Safonau, a bydd yn cefnogi sefydliadau o unrhyw faint, ac unigolion, i'w cyflawni. Rydym yn bwriadu gwneud hyn mewn sawl ffordd:

- Byddwn yn llunio canllawiau ymarferol wedi'u teilwra ar sut y gall sefydliadau mawr a bach ac unigolion fodloni'r Safonau.
- Darparu hyfforddiant ar y Safonau i helpu i godi ymwybyddiaeth, a chefnogi unigolion a sefydliadau i wreiddio'r disgwyliadau hyn yn eu gwaith.
- Cyn hir, bydd CIISA yn archwilio darparu achrediad ar gyfer rolau allweddol sy'n berthnasol i ymgorffori amgylcheddau gwaith diogel a chynhwysol.
- Byddwn yn cefnogi sefydliadau i hunanasesu eu cynnydd, gan sicrhau bod CIISA yn cadw ac yn rhannu arfer gorau ar wreiddio amgylcheddau gwaith diogel a chynhwysol er budd pawb.



- Bydd CIISA hefyd yn darparu dull adrodd annibynnol i sefydliadau ac unigolion adrodd am bryderon sy'n berthnasol i'r Safonau yn gyfrinachol, a bydd yn cyfeirio pobl at adnoddau allanol a all eu helpu i ddod o hyd i ffyrdd priodol o fynd i'r afael â'u pryderon.
- Bydd CIISA yn cipio mewnwelediad o'r adroddiadau hyn i helpu i greu darlun traws-ddiwydiant o sut mae'r diwydiannau creadigol yn gwreiddio'r Safonau. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau mewnwelediad thematig ac yn adrodd ar gynnydd cyffredinol.
- Maes o law, bydd CIISA yn ceisio cyflwyno gwasanaethau sydd â'r nod o ddatrys pryderon lle bo hynny'n bosibl, lle nad oes llwybrau presennol eraill ar gael. Bydd CIISA yn sicrhau nad yw'n dyblygu datrysiadau sy'n bodoli eisoes.





# Sut y dylai Gweithlu'r Diwydiannau Creadigol deimlo pan ddefnyddir ein Safonau yn ymarferol

- **Gwybod y Safonau** - “Mae gen i ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae Safonau CIISA yn ei gwmpasu, ac felly beth ddylwn i ddisgwyl ei weld a'i brofi, a'r ymddygiad a ddisgwylir gennyf yn ystod fy ngwaith yn y diwydiannau creadigol ac mewn amgylcheddau sy'n gysylltiedig â gwaith.”
- **Cydnabyddiaeth** - “Rwy'n gwybod sut beth yw torri Safonau CIISA.”
- **Ystyried y camau nesaf** - “Rwy'n gwybod ble i fynd i godi pryder, boed yn gysylltiedig â rôl bresennol neu flaenorol, ar fy rhan i neu ar ran rhywun arall, ac rwy'n teimlo'n ddiogel i rhannu fy marn gan fy mod yn gwybod y bydd fy mhryder yn cael ei gymryd o ddifrif, waeth beth yw grym canfyddedig pawb dan sylw, ac ni fyddaf yn cael fy stigmatiddio am wneud hynny.”
- **Codi pryder** - “Dwi'n teimlo bod y broses o godi pryder yn hawdd ei chyrraedd.”
- **Aros yn wybodus** - “Rwy'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf, a bod fy mhryderon yn cael gwrandawriad gan unigolion sydd â'r grym i'w datrys.”
- **Canlyniadau teg** - “Rwy'n teimlo bod codi pryder wedi arwain at ganlyniad a gafwyd mewn modd teg a chymerwyd camau priodol.”
- **Wrth fyfyrto ar brofiad** - “Buaswn i'n teimlo fy mod wedi fy ngrymuso i godi pryder yn y dyfodol a buaswn i'n argymhell i eraill wneud yr un peth.”
- **Bod yn destun pryder** - “Os codir pryder am fy ymddygiad, gwn y byddaf yn cael fy nhrin mewn ffordd sy'n deg ac yn briodol, gyda phrosesau sy'n amddiffyn fy hawliau.”



# Diffiniadau allweddol a ddefnyddir yn y Safonau CIISA

## Addasiadau rhesymol

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, 'addasiadau rhesymol' yw'r camau y dylai cyflogwr eu cymryd yn rhagweithiol i gael gwared ar, neu leihau rhwystrau i sicrhau nad yw pobl ag anableddau, neu gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, dan anfantais sylweddol yn y gwaith. Rhaid i gyflogwyr ceisio gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cyflogai, gweithwyr, contractwyr a phobl hunangyflogedig, yn ogystal ag ymgeiswyr am swydd (gweler Atodiadau I a II am fwy o fanylion).

## Amgylchedd gwaith

Unrhyw le y mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y diwydiannau creadigol yn digwydd. Mae gweithgarwch cysylltiedig â gwaith yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y broses hurio, ymarferion, cynhyrchu, perfformiad, gweithgaredd hyrwyddo, teithio, rhwydweithio, cynulliaidau cymdeithasol cysylltiedig â gwaith a digwyddiadau'r diwydiant. Gall yr amgylchedd gwaith fod yn ofod corfforol, ond gall hefyd fod ar-lein; trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau eraill.

Yn ddaearyddol, at ddibenion Safonau CIISA, gall yr amgylchedd gwaith fod yn y Deyrnas Gyfunol, neu gall fod dramor os yw'r gweithgaredd mewn perthynas ag endid yn y Deyrnas Gyfunol.

## Consynr

Cwyn, mynegiant o anfodlonrwydd neu gais am eglurhad mewn perthynas â thoriad posibl o Safonau'r CIISA, sy'n gofyn am ymateb.

## Chwythwr chwiban

Gweithiwr sy'n adrodd am gamwedd, yn y gwaith fel arfer, sy'n effeithio ar eraill. Gall chwythwyr chwiban godi pryderon am ddigwyddiad a ddigwyddodd yn y gorffennol, sy'n digwydd nawr, neu maen nhw'n credu bydd yn digwydd yn y dyfodol agos. Mae chwythwyr chwiban yn cael eu gwarchod gan y gyfraith – ni ddylid eu trin yn annheg na cholli eu swydd am eu bod yn 'chwythu'r chwiban' (gweler deddfwriaeth yn Atodiad II).

## Gweithlu'r Diwydiannau Creadigol

Pawb sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol (ar gyfer CIISA, hyn yn cychwyn gyda ffilm, teledu, cerddoriaeth a theatr) waeth beth fo'u rôl, profiad neu eu statws cyflogaeth.

At ddibenion Safonau CIISA, mae Gweithlu'r Diwydiannau Creadigol yn cynnwys gweithwyr, pobl hunangyflogedig, gweithwyr llawrydd, contractwyr, isgcontractwyr, cyflenwyr, gweithwyr ategol/staff cymorth (megis staff gweini, arlwyo neu ddiogelwch mewn amgylchedd gwaith diwydiannau creadigol), aelodau'r bwrdd, interniaid, prentisiaid, unigolion ar brofiad gwaith a gwirfoddolwyr.



Gellir dod o hyd i enghreifftiau o statws cyflogaeth yma: [www.gov.uk/employment-status](http://www.gov.uk/employment-status)

Gall y bobl eraill mae Safonau CIISA yn effeithio arnynt y tu allan i Weithlu'r Diwydiannau Creadigol gynnwys rhoddwyr, noddwyr, buddsoddwyr, arianwyr, myfyrwyr ar gyrsiau creadigol ac aelodau'r cyhoedd.

## Llygad-dyst

Person sy'n gweld ymddygiad a allai fod yn niweidiol tuag at berson arall (neu bersonau).

## Nodweddion gwarchoddedig

Diogelir naw nodwedd bersonol gan gyfraith y Deyrnas Gyfunol: oedran; ailbennu rhywedd; bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil; bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth; anabled; hil yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd eu 'nodweddion gwarchoddedig' (gweler Atodiadau I a II am fwy o fanylion).

## Perfformiwr/cyfrannwr/artist arweiniol

Unrhyw un yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol sydd â chyfrifoldebau arweinyddiaeth greadigol hirdymor neu dros dro neu awdurdod artistig ar gyfer sefydliad, cynhyrchiad neu brosiect. Mewn ffilm a theledu gellir eu disgrifio (er nid dim ond) fel y dalent ar y sgrin neu gyfrannwr uwchben y llinell. Mewn cerddoriaeth, gellir eu disgrifio (er nid dim ond) fel y prif artist, arweinydd band, cyfarwyddwr cerdd neu brif awdur neu gynhyrchydd.

Mae Perfformiwr/Cyfrannwr/Artist Arweiniol yn rhan o Weithlu'r Diwydiannau Creadigol. Gallant hefyd fod yn Uwch Arweinwyr a/neu'n Rheolwyr yng nghyd-destun diffiniadau CIISA.

At ddibenion Safonau CIISA, dylai perfformwyr/cyfranwyr/artistiaid arweiniol gyfeirio at y swydd(i) sydd fwyaf perthnasol iddynt (Gweithlu'r Diwydiannau Creadigol ac Uwch-Arweinydd a/neu Reolwr).

## Rheolwr

Yng nghyd-destun Safonau CIISA, Rheolwr yw unrhyw un yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol sy'n gyfrifol am ymgysylltu'n uniongyrchol a/neu goruchwyllo/arolygu gwaith eraill mewn sefydliad, ar gynhyrchiad neu ar brosiect, waeth beth yw lefel eu statws ac a oes ganddynt 'reolwr llinell' yn eu swydd-ddisgrifiad ai peidio.

Yn dibynnu ar y diwydiant creadigol, gallai teitlau swyddi ar gyfer Rheolwyr gynnwys (er nid dim ond) rheolwr, cynhyrchydd, pennaeth adran, ymchwilydd (er enghraifft wrth reoli rhedwyr), A&R, gosodwr neu archebwr.

Mae Rheolwr yn rhan o Weithlu'r Diwydiannau Creadigol. Gallant hefyd fod yn Uwch-Arweinydd a/neu Perfformiwr/Cyfrannwr/Artist Arweiniol (gweler y diffiniadau uchod ac isod).



## Sefydliad/Cynhyrchu/Prosiect y Diwydiannau Creadigol

Sefydliad, cynhyrchiad neu brosiect yn y diwydiannau creadigol sy'n gysylltiedig ar unrhyw gam o greu i rannu cynnwys creadigol. Mae Safonau CIISA yn canolbwyntio i ddechrau ar sefydliadau, cynyrchiadau a phrosiectau ym maes ffilm, teledu, cerddoriaeth a theatr.

## Uwch-Arweinydd

Yng nghyd-destun Safonau CIISA, Uwch-Arweinydd yw unrhyw un yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol a chyfeiriad sefydliad, cynhyrchiad neu brosiect o unrhyw faint.

Mae Uwch-Arweinwyr yn cynnwys unigolion sy'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd, yn ogystal â chyfarwyddwyr byrddau ac ymddiriedolwyr lle maent yn rhan o'r strwythur llywodraethu.

Mae Uwch-Arweinwyr yn rhan o Weithlu'r Diwydiannau Creadigol. Gallant hefyd fod yn Rheolwr a/ neu'n Berfformiwr/Cyfrannwr Arweiniol/Artist (gweler y diffiniadau uchod).

## Ymddygiad niweidiol

Yn gyffredinol, mae ymddygiad niweidiol yn cyfeirio at weithredoedd neu ymddygiad a wneir mewn amgylchedd gwaith sy'n achosi niwed corfforol, emosïynol neu seicolegol i eraill. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) bob math o fwlio, aflonyddu, gwahaniaethu ac erledigaeth. Am enghreifftiau a diffiniadau o ymddygiad niweidiol a drafodir yn y Safonau, gweler Atodiad I.



# Cip o Safonau CIISA



## Safon 1: Amgylcheddau Gweithio Diogel

Yng nghyd-destun Safonau CIISA, mae amgylchedd gwaith diogel yn un lle bydd:

1. **Unigolion yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol** – waeth beth yw eu rôl, eu profiad neu eu statws cyflogaeth – yn gwybod sut beth yw amgylchedd gwaith diogel a gweithredu'n unol â hynny. Maent yn deall yr ymddygiadau sy'n niweidiol ac annerbyniol yn yr amgylchedd gwaith, gan gynnwys camymddwyn rhywiol a mathau eraill o aflonyddu a bwlio, a ffyrdd i'w hatal.
2. **Uwch-Arweinwyr** yn sefydlu diwylliant lle mae lles y gweithlu cyfan, waeth beth fo'i statws hynafedd neu gyflogaeth, yn cael ei amddiffyn a'i barchu. Maent yn cymryd camau i atal aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, bwlio ac ymddygiad niweidiol arall, ac i ddiogelu lles eu gweithlu.
3. **Rheolwyr** yn gosod y naws drwy hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant lle mae lles y gweithlu yn cael ei ddiogelu a'i barchu.



## Safon 2: Amgylcheddau Gwaith Cynhwysol

Yng nghyd-destun Safonau CIISA, mae amgylchedd gwaith cynhwysol yn un lle bydd:

1. **Unigolion yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol** – waeth beth yw eu rôl, eu profiad neu eu statws cyflogaeth – yn gwybod sut beth yw ymddygiad gwahaniaethol, gan gynnwys aflonyddu. Maent yn deall nad yw'r ymddygiad hwn yn dderbyniol ac yn gweithredu yn unol â hynny.
2. **Uwch-Arweinwyr** yn hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb, trin pobl yn gyfartal ac yn deg, gwerthfawrogi gwahaniaethau pawb, a grymuso a galluogi pob aelod o'u gweithlu i ffynnu, waeth beth fo'u statws, profiad neu gyflogaeth. Maent yn cymryd mesurau ataliol ystyrllon i sicrhau nad yw eu gweithlu'n wynebu gwahaniaethu nac anfantais yn yr amgylchedd gwaith.
3. **Rheolwyr** yn gosod y naws trwy hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant lle mae lles y gweithlu yn cael ei ddiogelu a'i barchu.

## Safon 3: Mekanweithiau Adrodd Cyfrifol ac Atebol

Mae mecanweithiau adrodd cyfrifol ac atebol yn rhai lle bydd:

1. **Unigolion yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol** – waeth beth yw eu rôl, eu profiad neu eu statws cyflogaeth – yn gwybod bod ganddynt yr hawl i roi gwybod am ymddygiad niweidiol i'r endid a gontractiodd yn y lle cyntaf pryd bynnag y bo modd, maent yn gwybod y gweithdrefnau ar gyfer gwneud hynny ac yn hyderus i'w defnyddio.
2. **Uwch-Arweinwyr** yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod eu gweithlu'n cael eu grymuso i godi pryderon mewn lleoliad diogel (ac yn ddiennw os yw'r person sy'n codi pryder yn gofyn am hyn) ac yn gwybod y broses o wneud hynny. Maent yn cydnabod eu hatebolrwydd fel Uwch-Arweinwyr ac yn cymryd perchnogaeth o fynd i'r afael â phryderon a'u datrys yn briodol. Gall delio â chamymddwyn yn gynnar atal gwaethygu i faterion hyd yn oed yn fwy difrifol.
3. **Rheolwyr** yn meithrin diwylliant o godi llais, lle nad oes unrhyw un yn cael eu herlid, eu dial arnynt, eu gwrthod na'i fychanu am ofyn cwestiynau, herio'r sefyllfa bresennol neu ddilyn eu hawliau neu hawliau pobl eraill.



## Safon 4: Diwylliant Dysgu Ymatebol

Mae diwylliant dysgu ymatebol yn un lle:

1. **Gall unigolion yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol** – waeth beth fo'u rôl, eu profiad neu eu statws cyflogaeth – ddarparu a derbyn adborth ynghylch eu profiad o ymddygiad niweidiol a, lle bo hynny'n briodol, deall sut y gallai eu profiadau gyfrannu at newid cadarnhaol yn y dyfodol.
2. **Bydd Uwch-Arweinwyr** yn ymgorffori diwylliant o welliant parhaus a monitro cynnydd. Maent yn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddysgu oddi wrth bryderon a godwyd, effaith y pryderon hyn, sut yr ymdriniwyd â nhw, ac effaith unrhyw gamau a gymerwyd i ddelio â nhw.
3. **Bydd rheolwyr** yn ystyried dysgu ac yn eu cymhwyso i'w gwaith.

Gweler y dudalen nesaf ar gyfer Safonau CIISA yn llawn.



# Y Safonau yn Llawn.

**Nodyn:** Am wybodaeth ategol, gweler yr atodiadau hyn:

I. Enghreifftiau o ymddygiad niweidiol sy'n berthnasol i Safonau CIISA

II. Rhestr enghreifftiol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Safonau CIISA





# Safon 1: Amgylcheddau Gweithio Diogel

Mae bod yn destun ymddygiad megis aflonyddu (rhywiol neu arall), bwlio, gwahaniaethu, erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad ac arferion gwaith niweidiol yn cael effaith niweidiol ar les unigolion a gall effeithio ar eu perfformiad a'u cynnydd yn y dyfodol, yn ogystal â'u diogelwch corfforol.

Er y gallai rhywfaint o waith gynnwys sefyllfaoedd o dan bwysau mawr, mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol allu gwneud hynny mewn amgylchedd proffesiynol heb ddod i gysylltiad â niwed seicolegol, rhywiol na chorfforol.

Mae gan gyflogwyr, gweithwyr a phobl hunangyflogedig ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth berthnasol i beidio â datgelu eraill yn y gweithlu i risgiau i'w hiechyd neu ddiogelwch corfforol a meddyliol. Am enghreifftiau o ddyletswyddau, gweler Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Diogelu Gweithwyr 2023 a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (Atodiad II).

Yng nghyd-destun Safonau CIISA, mae amgylchedd gwaith diogel yn un lle:

**1.1 Mae unigolion yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol – waeth beth yw eu rôl, eu profiad neu eu statws cyflogaeth – yn gwybod sut olwg sydd ar amgylchedd gwaith diogel a gweithredu'n unol â hynny. Maent yn deall yr ymddygiadau sy'n niweidiol ac annerbyniol yn yr amgylchedd gwaith, gan gynnwys pob math o gamymddwyn rhywiol a mathau eraill o aflonyddu a bwlio, a ffyrdd i'w hatal. Maent yn cydnabod bod:**

- Cyfrifoldeb pawb yw gofalu am les eraill yn y gweithlu, parchu urddas ei gilydd waeth beth fo'u statws, a herio ymddygiad niweidiol lle bo hynny'n bosibl.
- Gallant ddisgwyl i gamau gael eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad aflonyddu, hyd yn oed os yw'n anfwriadol, ac i sicrhau nad yw'n cael ei ailadrodd. Gallai'r weithred hon gynnwys hyfforddiant anffurfiol, camau disgyblu neu derfynu gwasanaethau (yn dibynnu ar statws cyflogaeth), neu gamau cyfreithiol posibl gan y dioddefwr.
- Maent yn gallu ceisio cefnogaeth i'w hiechyd meddwl a'u lles os ydynt yn cael eu heffeithio gn ymddygiad niweidiol, ac i dderbyn cymorth i fynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath.
- Rhaid iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol y Deyrnas Gyfunol a deall eu dyletswydd gofal o dan iechyd a diogelwch, cyflogaeth a deddfwriaeth arall.

**1.2 Mae Uwch-Arweinwyr yn sefydlu diwylliant lle mae lles y gweithlu cyfan, waeth beth yw eu statws o ran profiad neu gyflogaeth, yn cael ei amddiffyn a'i barchu. Maent yn cymryd camau i atal aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, bwlio ac ymddygiad niweidiol arall, ac i ddiogelu lles eu gweithlu. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:**

- Gosod esiampl dda drwy fodelu'r safonau ymddygiad uchaf.
- Sicrhau bod Uwch-Arweinwyr ar y lefel uchaf yn cymryd cyfrifoldeb yn y pen-draw am les ac ymddygiad eu gweithlu a blaenoriaethu lliniaru risg mewn cynllunio strategol.
- Cymryd cyfrifoldeb i ddeall a lliniaru risgiau i les y gweithlu a bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol, ac adolygu effeithiolrwydd asesiadau risg yn rheolaidd.
- Esbonio'n glir i bawb y maent yn gweithio gyda sut beth yw ymddygiad niweidiol, canlyniadau ymddygiad o'r fath, a'r safonau ymddygiad disgwylidig, yn ogystal â chymryd camau i ennyn hyder unigolion i godi llais lle bo hynny'n briodol. Gellir cyfathrebu hyn drwy bolisiau a gweithdrefnau, contractau, cytundebau gwasanaeth, hyfforddiant ac ymgysylltu ehangach o ddydd i ddydd.
- Sicrhau nad yw unigolion yn cael eu gorfodi i beidio ag adrodd drwy fecanweithiau cyfreithiol – megis camddefnyddio cymalau cyfrinachedd neu gytundebau i beidio â datgelu (NDAs) – os ydynt yn profi neu'n gweld ymddygiad niweidiol yn eu hamgylchedd gwaith yn ddiweddarach.
- Blaenoriaethu darparu hyfforddiant ac adnoddau i arfogi eu gweithlu gyda'r sgiliau, y cymwyseddau a'r dulliau priodol i gefnogi eu lles eu hunain ac eraill. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i Reolwyr mewn sgiliau rheoli pobl a sut i fynd i'r afael â pherfformiad annigonol yn briodol.



- Recriwtio a chydabod aelodau'r tîm, Uwch-Arweinwyr a Rheolwyr sy'n hyrwyddo ac yn ymgorffori diwylliannau gwaith cadarnhaol ac yn arddangos sgiliau rheoli pobl dda.
- Sicrhau bod gan eu gweithlu fynediad (yn fewnol neu drwy drydydd parti) at unigolion sydd â chyfrifoldebau gwell am gefnogi eraill, er enghraifft hwyluswyr lles, cydlynwyr mynediad, arbenigwyr iechyd galwedigaethol a swyddogion diogelu a chwythu'r chwiban fel y bo'n briodol. Gall y mynediad a ddarperir fod yn gymesur â maint y sefydliad, y cynhyrchiad neu'r prosiect.

**1.3 Mae rheolwyr yn gosod y naws drwy hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant lle mae lles y gweithlu yn cael ei ddiogelu a'i barchu. Maent yn gwneud hyn drwy:**

- Gosod esiampl dda drwy fodelu'r safonau ymddygiad uchaf, ac maent mor dryloyw â phosibl wrth ddelio â'u tîm.
- Datblygu eu gwybodaeth am adnabod a mynd i'r afael ag ymddygiadau niweidiol, lle gallai fod yn brin.
- Cymryd cyfrifoldeb dros ymddygiad pobl eraill yn eu tîm.
- Mynd ati i gefnogi unigolion sydd â chyfrifoldebau i gefnogi eraill (lle bo hynny'n berthnasol) – megis hwyluswyr lles, cydgysylltwyr mynediad, arbenigwyr iechyd galwedigaethol a swyddogion diogelu a chwythu'r chwiban – i gyflawni'r cyfrifoldebau sy'n rhan o'r rôl.





# Safon 2: Amgylcheddau Gwaith Cynhwysol

Mae gan bawb sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol yr hawl i gael eu trin yn deg a heb ragfarn ar bob cam o'u gyrfa. Gall ymddygiad gwahaniaethol effeithio ar allu unigolion i sicrhau gwaith, ffynnu a symud ymlaen yn eu rôl.

Felly, mae'n rhaid rhoi camau gweithredol ar waith i atal gwahaniaethu ac eithrio, gan sicrhau bod rolau a'r amgylchedd gwaith yn wirioneddol hygyrch i bawb.

Am enghreifftiau o ddyletswyddau, gan gynnwys y ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' i helpu gweithwyr anabl ac ymgeiswyr am swyddi, gweler Deddf Cydraddoldeb 2010 (Atodiad II).

Yng nghyd-destun Safonau CIISA, mae amgylchedd gwaith cynhwysol yn un lle:

**2.1 Mae unigolion yng Ngweithlu'r Diwydiannau Creadigol – waeth beth yw eu rôl, eu profiad neu eu statws cyflogaeth – yn gwybod sut beth yw ymddygiad gwahaniaethol, gan gynnwys aflonyddu. Maent yn deall nad yw'r ymddygiad hwn yn dderbyniol ac yn gweithredu yn unol â hynny. Maent yn cydnabod bod:**

- Cyfrifoldeb pawb yn y gweithlu yw atal gwahaniaethu, hyrwyddo cynwysoldeb a bod yn agored i ddysgu a newid eu hymddygiad eu hunain os oes angen.
- Waeth beth fo'u credoau personol, rhaid iddynt drin pawb y maent yn gweithio gyda nhw mewn modd proffesiynol, parchus, a gallant ddisgwyl i eraill eu trin yn yr un modd.
- Gallant ddisgwyl i gamau gael eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwahaniaethol, hyd yn oed os yw'n anfwriadol, ac i sicrhau nad yw'n cael ei ailadrodd. Gallai'r weithred hon gynnwys hyfforddiant anffurfiol, camau disgyblu neu derfynu gwasanaethau (yn dibynnu ar statws cyflogaeth), neu gamau cyfreithiol posibl gan y dioddefwr.
- Maent yn gallu ceisio cefnogaeth i'w hiechyd meddwl a'u lles os ydynt yn cael eu heffeithio gan ymddygiad gwahaniaethol, ac i gael cymorth i fynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath.
- Mae pob person yn unigolyn sydd â phryderon a phrofiadau penodol, ac nid yw ymddygiad gwahaniaethol a thriniaeth annheg arall bob amser yn cael ei phriodoli i un nodwedd hawdd ei hadnabod.
- Efallai na fydd y nodwedd(au) a dargedwyd bob amser yn bodloni'r diffiniad 'nodwedd warchoddedig' yng nghyfraith y Deyrnas Unedig – er enghraifft cefndir economaidd-gymdeithasol, acen neu ddsbarth – ond dylid cymryd camau o hyd i fynd i'r afael ag ymddygiad niweidiol ar sail y nodweddion hyn.

**2.2 Mae Uwch-Arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb, trin pobl yn gyfartal ac yn deg, gwerthfawrogi gwahaniaethau pawb, a grymuso a galluogi pob aelod o'u gweithlu i ffynnu, waeth beth fo'u profiad neu gyflogaeth. Maent yn cymryd mesurau ataliol ystyrlon i sicrhau nad yw eu gweithlu'n wynebu gwahaniaethu nac anfantais yn yr amgylchedd gwaith. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:**

- Gosod esiampl dda drwy fodelu'r safonau ymddygiad uchaf.
- Esbonio'n glir i bawb y maent yn gweithio gyda sut beth yw ymddygiad gwahaniaethol, gan gynnwys aflonyddu, a chanlyniadau ymddygiad o'r fath. Gellir cyfathrebu hyn drwy (ond nid yn unig) polisiau a gweithdrefnau, contractau, cytundebau gwasanaeth, hyfforddiant ac ymgysylltu ehangach o ddydd i ddydd a gynlluniwyd i osgoi, lleihau a lliniaru gwahaniaethu ac unrhyw ymddygiad niweidiol a allai effeithio ar aelodau'r gweithlu.
- Blaenoriaethu darparu hyfforddiant ac adnoddau i arfogi eu hunain a'u gweithlu â'r sgiliau, y cymwyseddau a'r dulliau priodol i gefnogi amgylchedd gwaith cynhwysol.
- Cymryd camau rhagweithiol i liniaru anghydbwysedd pŵer, mynd i'r afael â cham-drin pŵer a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau strwythurol i gynhwysiant.



- Sicrhau eu bod yn adolygu ac yn bodloni gofynion hygyrchedd eu gweithlu'n rheolaidd, gan gynnwys cydnabod a gweithredu'r model cymdeithasol o anabledd (sy'n ceisio cael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan yn y gweithlu), a gwneud addasiadau rhesymol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Sicrhau bod gan eu gweithlu fynediad (yn fewnol neu drwy drydydd parti) at unigolion sydd â chyfrifoldebau gwell am gefnogi eraill gyda gofynion mynediad, er enghraifft arbenigwyr iechyd galwedigaethol a chydlynwyr mynediad (lle bo hynny'n berthnasol).

